# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cydsynio*

**4 Cydsynio: oedolion**

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cydsynio at ddibenion adran 3 mewn perthynas â gweithgaredd trawsblannu sy'n ymwneud â chorff, neu ddeunydd perthnasol o gorff, person nad yw—

(a) yn oedolyn a eithrir (gweler adran 5), neu

(b) yn blentyn (gweler adran 6).

(2) Ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi i'r gweithgaredd oni bai—

(a) bod yr achos yn un a grybwyllir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn is-adran (3); ac os felly mae'n ofynnol cael cydsyniad datganedig, neu

(b) nad yw'r achos yn un a grybwyllir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn is-adran (3) ac mae is-adran (4) yn gymwys.

(3) Ar gyfer pob achos a grybwyllir yng ngholofn gyntaf Tabl 1, mae ystyr cydsyniad datganedig mewn perthynas â gweithgaredd wedi ei ddarparu yn ail golofn y tabl—

TABL 1

| Yr achos | Ystyr cydsyniad datganedig |
|---|---|
| 1. Mae'r person yn fyw. | Cydsyniad y person. |
| 2. Mae'r person wedi marw ac yr oedd penderfyniad gan y person i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i'r gweithgaredd mewn grym yn union cyn iddo farw. | Cydsyniad y person. |
| 3. Mae'r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys, yr oedd y person wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn | Cydsyniad a roddir gan y person neu'r personau a benodir. |

| Yr achos | Ystyr cydsyniad datganedig |
|---|---|
| perthynas â'r gweithgaredd ac mae rhywun yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad. | |
| 4. Mae'r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys ac yr oedd y person wedi penodi person neu bersonau i ymdrin a'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad. | Cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo a'r person cyn iddo farw. |

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw perthynas neu gyfaill ers amser maith i'r ymadawedig yn gwrthwynebu ar sail barn yr ymadawedig, a

(b) pe byddai person rhesymol yn dod i'r casgliad bod y perthynas neu'r cyfaill yn gwybod mai barn ddiweddaraf yr ymadawedig cyn iddo farw ar gydsynio i weithgareddau trawsblannu oedd bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu i gydsyniad gael ei roi.

(5) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at benodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio yn gyfeiriad at benodiad o dan adran 8.

(6) Nid yw'r adran hon yn gymwys i gydsyniad i weithgaredd trawsblannu sy'n ymwneud â thynnu deunydd perthnasol a eithrir (gweler adran 7 am ddarpariaeth mewn perthynas â hyn).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 1.12.2015 gan O.S. 2015/1679, **ergl. 3(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 4.